


national museum wales
amgueddfa cymru

# Amser Golchi

national museum wales
amgueddfa cymru

# Amser Golchi!

Golchi dillad cyn y peiriant golchi

## Cyflwyniad athrawon

Adnodd digidol rhyngweithiol ar gyfer oedran 5-7 ynglŷn â golchi dillad cyn dyfodiad y peiriant golchi.

Gellir gweld sut brofiad oedd gwneud y golch trwy gymryd rhan mewn gweithdai Dysgu Gweithredol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach ac Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Manylion cyswllt ar gyfer llogi lle ar y dudalen olaf.

Cliciwch ar y symbolau hyn trwy gydol y llyfr:

- Mwy o wybodaeth
- Darganfod yr ateb
- Awgrym gweithgaredd
- Cwestiwn myfyriol

**Cyswllt â'r cwricwlwm:**
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Llythrennedd a Rhifedd, Hanes.

Beti Bwt a aeth i olchi,
eisiau dillad glân oedd arni;
tra bu Pegi yn ‘mofyn sebon
aeth y dillad gyda’r afon!

**Beth am gyfarfod Beti!**






Helo!

Beti Bwt ydw i. Rydw i’n byw amser maith iawn yn ôl.

Mae’n llawer gwell gen i ddydd Iau pan gai bobi bara…

Ond ar ddydd Llun… mae’n amser golchi dillad!



Dyma fi wedi newid! Mae gen i ddwy ffedog, un wedi ei gwneud o hen sach!

Rydw i’n golchi dillad **POB** dydd llun, **POB** wythnos.

Rydw i’n golchi ar ddydd Llun oherwydd ar ddydd Sul, mi fydda i’n mynd i’r capel ac wedyn yn cael gorffwys drwy’r dydd. Ar ôl cael gorffwys, mae gen i ddigon o egni yn barod ar gyfer y gwaith caled dydd Llun!

Beth am ddarganfod mwy am olchi amser maith yn ôl...

Beth am ddechrau trwy feddwl sut mae dy ddillad di yn cael eu golchi?
**Rhwbia'r peiriant i weld sut oedd golchi dillad amser maith yn ôl!**



Does gan Beti ddim un o'r rhain… ond pam ddim?
Beth sydd ar goll yng nghartref Beti? Beth am edrych…

Oherwydd does dim….





**Roedd trefn i'r golchi!**

Ceisia ddyfalu trwy roi'r mathau o ddillad yn y drefn gywir.



## Dillad gwaith, y dillad mwyaf budr, fyddai olaf.
## Pwy fyddai'n gwisgo'r rhain?

Clicia yma i weld pa waith sydd yn achosi dillad i fod yn fudr iawn…



Dyma chwarelwr yn gwisgo ffustion, math o drowsus, sydd yn mynd yn llychlyd iawn wrth dorri llechi.

## Dyma Kate Roberts yn sôn am olchi dillad, a pa mor anodd oedd golchi ffustion chwarelwr!

“Dyna chi'r gwaith caleta' gan wraig y tyddynnwr a'r chwarelwr oedd golchi ffustion. Rwan, oedd y chwarelwr bob amser yn gwisgo trowser melfarèd, cordiròi. Côt lian hefyd, 'dach chi'n gweld, o dan 'i grysbas ynte. Wel, gyntaf âi o i'r chwarel pan odd rheina'n lân, odd llwch llechi hyd iddyn nhw'n toedd? Ac ond unwaith bob mis fyddan nhw'n cal 'u golchi ac rodd hi'n job ofnadwy. A roedd y trowser yn mynd yn wynnach ac yn wynnach fel oddach chi'n 'wisgo fo. Odd o'n dechra yn rhyw frown, 'dach chi'n gwbod, ac wedyn mi fydda'n mynd yn wynnach wrth gal 'i olchi 'te, a diwrnod ofnadwy i wraig y chwarelwr odd diwrnod golchi ffustion. Y sosban odd ganddi i ferwi dillad ag oddan ni'n gorfod gneud y cwbwl yn y gegin 'dach chi'n gweld, y sosban ffurf ŵy, hirgrwn a handlan fel'na wrthi hi, fawr fel'na dros 'i phen hi'n te. Handlan fasa'n hongian os bysach chi isho. A wedyn odd hi'n gorfod berwi y dillad yma, y ffustion yma, mewn dŵr a soda, cofiwch!

Oddan ni'n tynnu dŵr o bistyll bach yn nhalcen y tŷ, 'dach chi'n gweld. Ddim o dap o gwbwl 'te - pistyll dŵr digon da i'w yfed. Odd o'n dŵad trwy lechi i lawr o ffynnon yn nhop y cae a wedyn i lawr trwy gafn llechi, 'dach chi'n gweld, i lawr i'r pistyll. Wel fydda Mam, 'dwn i ddim sut odd hi'n neud o, yn cario'r sosban fawr 'ma, hirgrwn 'ma, efo'r ffustion ynddi ac yn rhoid o dan y pistyll i strelio nhw, bob tywydd. Bob tywydd. Ac yn anodd i sychu, odd o'n anodd i sychu, yn y gaea'n te, yn ofnadwy. Ond fyddan nhw'n cal 'u rhoi allan ar y lein mae'n debyg - gafal mewn diwrnod go lew yntê. Fydda'n diferu beth bynnag, a dod â nhw i'r ty i olchi, i'w sychu.”

# Dŵr



oedd angen digon o ddŵr i wneud y golch. Ond doedd gan lawer o bobl ddim tap yn y tŷ amser maith yn ôl.

Dychmyga fod dim tap yn dy dŷ di – ble arall mae ‘na ddŵr? Beth am chwarae gem drwy ddyfalu’r enw iawn o’r llythrennau o dan y llun?




Jennie at the Well.

Dau fwced ac iau sydd gen i. Er mwyn cario'r pwysau ar fy ysgwyddau.



Dwi'n dod â dau fwced yn ôl o'r afon bob tro. Nawr am gwis!








# Sebon







Cyn bod powdwr golchi roedd yn rhaid defnyddio sebon.


Roedd yn rhaid rhoi’r sebon yn syth ar y dillad, nid mewn drôr mewn peiriant fel heddiw.

Dyma'r sebon yn saff ar y silff.



Be fyddai'n digwydd i'r sebon
pe bai yn y dŵr?

Clicia ar y bowlen i
ddysgu'r gair gwyddonol!









Roedd starts yn cael ei ddefnyddio i wneud dillad yn galed, i gadw eu siâp yn well ac er mwyn eu cadw yn lan yn hirach.

Caiff llieiniau bwrdd a ffedogau eu startsio gyda dŵr **poeth**. Roedd startsio gyda dŵr **oer** yn sgil, ac weithiau roedd yn rhaid i rywun gyda'r sgiliau arbennig hynny ddod draw i'r tŷ i wneud y gwaith!

Yna i rinsio, defnyddiai Beti ychydig bach o Bliw. Ond pam Beti?



Gwrandewch ar Elizabeth Ebenezer yn sôn am ddefnyddio Bliw. O diar, mae dillad rhai yn troi yn las gyda gormod o Bliw!

“Oedd perygl i rai onyn nw i roi gormod, chwel. Welech chi dillad rhai ar y lein – O! On nw’n las, las! A unwaith ethe’r glasni ‘ma fewn i’r calico, yn ych byw gesech chi e mâs, mae’n debyg. Odd rhai rhy lawdrwm ar hwnna. Neud y gwyn yn wynnach. ‘Na oedd yr idea.”

# Offer





Mae gen i sebon a dŵr poeth, ond beth am yr offer?

Alli di roi'r enw cywir wrth y llun cywir?

BWRDD SGRWBIO

DOLI

TWBA DOLI

MANGL

TWBA GOLCHI



# Pa offer sydd yn y llun hwn?





Rhaid sgwrio yn galed, i fyny ac i lawr, i fyny ac i lawr!



Tynnwyd y llun yma o rywun yn sgwrio yn galed  yn 1900 ym Mrechfa, Llandeilo.

Mae hyn yn rhwbio’r baw i ffwrdd ac yn gwneud yn siŵr fod y sebon dros y dillad i gyd.




Dyma Miss Kate John o Ferthyr yn y 1940au yn defnyddio bwrdd sgwrio. Yn rhwbio'r dillad i fyny ac i lawr y bwrdd sgwrio.

**Mae'n waith caled!**

Doli yw hon! Ydi hi’n edrych fel doli? Roedd rhai pobl yn meddwl ei bod hi.

**Clicia ar y doli i weld pam...**





Mae beti yn symud y doli i fyny a lawr, ac yn ei throi a’i throi drosodd a drosodd er mwyn cael y dillad yn lân.

**Fyny, lawr, troi a throi!**

**Fyny, lawr, troi a throi!**

# Sychu a smwddio






Nawr rhaid dechrau sychu., Y cam cyntaf yw cael gwared ar ddiferion trwy ddefnyddio mangl.

Os wyt ti'n troi'r ddolen yr un ffordd a bysedd y cloc – beth yw'r enw ar y cyfeiriad yma?

Clicia i weld os wyt ti yn gywir.




Mae Beti yn ofalus wrth ddefnyddio'r mangl, rhag ofn iddi golli bys!

Mae Beti yn casglu'r holl ddŵr o'r mangl yn y bowlen, er mwyn ei ailgylchu a'i ddefnyddio ar gyfer ychydig o lanhau.

?

Yna mae'r dillad yn barod i'w rhoi ar y lein…





Dyma beth mae Beti yn defnyddio i roi dillad ar y lein. Pegiau!

Amser maith yn ôl, roedd plant bach yn arfer gwneud eu teganau eu hunain allan o bethau o amgylch y tŷ, fel pegiau.

?

Dyma luniau o ddillad ar y lein.



Dyma Esmee Rees yn y 1960au yn Nhreorci, yn cael ychydig bach o help!

Roedd yr haul yn ddefnyddiol ar gyfer sychu, ond roedd hefyd yn dda, fel y Bliw, i gael y dillad yn wyn, trwy gannu y dillad.

Dyma Elizabeth Davies yn cannu dillad drwy eu rhoi ar y clawdd yn Aber-banc, Dyfed yn 1935.

?



Dyma ddol peg. Wyt ti erioed wedi creu un?






Beth am chwarae gêm i greu dol peg ddigidol?
Llusga'r dillad er mwyn gwisgo'r peg.





Pan mae'r dillad yn sych, mae'n amser smwddio. Ond heb drydan, roedd yn rhaid cynhesu'r haearn ar y tân.

Roedd angen profi'r haearn i weld os oedd e'n ddigon poeth, ond heb ei gyffwrdd!



Er mwyn gweld os oedd yr haearn yn ddigon poeth roedd pobl yn poeri ar yr haearn, fel mae Afanwen Davies yn gwneud fan hyn.

Mae dŵr poeth yn troi yn stêm, ac os yw’r haearn yn ddigon poeth bydd yr un peth yn digwydd i’r dŵr yn y poer.



A dyma sut oedd smwddio, er mwyn gwneud yn siŵr bod dim un crychyn. Gelwir y crychion yn draed brain!

# Peiriant Golchi





Dyma lun o beiriant golchi cynnar o’r 1950au, gyda mangl a thwba mewn un.

Ar y dudalen nesaf mae mwy o luniau o hen beiriannau. Roedd y peiriannau yma’n fwy hen byth ac yn cael eu defnyddio cyn trydan!

Dyma fwy o hen beiriannau…





A dyna ni! Nawr mae’r dillad i gyd wedi eu golchi a’u sychu, ac yn barod i’w gwisgo. Bydd Beti yn gwneud yr holl beth eto ddydd Llun nesaf!

Sut mae Beti’n teimlo ys gwn i? Beth mae Beti yn ei ddweud ar ddiwedd y golch?




Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Beth am ddod i helpu ni gyda'r golch?

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**

Ffoniwch (029) 2057 3424 neu e-bostio
addysg.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk i gadw lle
https://amgueddfa.cymru/sainffagan/addysg/sylfaen/

**Amgueddfa Lechi Cymru**
(wythnos ym mis Chwefror yn flynyddol)

Ffoniwch (029) 2057 3702 i gadw lle
https://amgueddfa.cymru/llechi/addysg/sylfaen/

**Amgueddfa Wlân Cymru**

Ffoniwch (029) 2057 3070 i gadw lle
https://amgueddfa.cymru/gwlan/addysg/sylfaen/

**Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**

Ffoniwch (029) 2057 3650 i gadw lle
https://amgueddfa.cymru/bigpit/addysg/sylfaen